

Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol ALI Wreccsam (2019)

Ian Roberts
Pennaeth Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Rhagair:

Mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ac felly caiff ei weithredu y tu allan i'r Cwricwlwm Cenedlaethol presennol. Mae'r cwricwlwm Addysg Grefyddol yn ysgolion Wrecsam yn parhau i gael ei benderfynu gan yr ALI a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Wrecsam (CYSAG). Golyga hyn bod yn rhaid i bob ysgol ddarparu Addysg Grefyddol yn ôl y maes llafur cytûn yn Wrecsam, ac mae'n rhaid i'r ALI fonitro bod ysgolion yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Mabwysiadwyd y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG, ar gyfer rhai 3 i 19 oed, fel y maes llafur cytûn lleol ar gyfer Wrecsam yn 2008. Cafodd ei ail-fabwysiadu yn 2013 ac yn y cyfarfod ar 17 Hydref 2018 lluniodd CYSAG Wrecsam Gynhadledd Maes Llafur Cytûn (ASC) i adolygu hyn eto. Penderfyniad yr ASC oedd bod y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG ar gyfer rhai 3 i 19 oed yn aros yn ei le ar hyn o bryd fel y maes llafur cytûn ar gyfer Wrecsam ac mae'n rhaid i'r holl ysgolion a gynhelir yn Wrecsam ei ddilyn.

Yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2019 aildrefnwyd Cynhadledd Maes Llafur Cytûn i gadarnhau'r penderfyniad hwn ac i egluro rhai o'r manylion yn y ddogfen ychwanegol a luniwyd yn 2008 i gefnogi'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG fel maes llafur cytûn Wrecsam. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r newidiadau a argymhellwyd i'r awdurdod lleol ac yn disodli'r ddogfen ychwanegol wreiddiol.

Mae CYSAG Wrecsam yn bwriadu cynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytûn arall yn y dyfodol agos unwaith y bydd y cwricwlwm newydd wedi'i gyhoeddi ac ar gael i ysgolion er mwyn argymhell maes llafur cytûn newydd i'r Awdurdod Lleol.

Ian Roberts
Pennaeth Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol Wreccsam

Cyflwyniad:

Mae CYSAG Wreccsam wedi ailfabwysiadu'r **Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed** yng Nghymru fel ei Faes Llafur Cytûn. Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod Lleol, fel yr argymhellwyd gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ar 14 Chwefror 2019, wedi penderfynu cadw'r manylion a amlinellwyd yn y ddogfen hon, gan gynnwys diwygiadau pwysig i'r adran ar amser ar gyfer AG. Felly mae cyfrifoldeb i'r ysgolion gydymffurfio â'r manylion hyn fel estyniad i'r maes llafur cytûn lleol ar gyfer Addysg Grefyddol yn Wreccsam.

Mae Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol AG yn cefnogi ysgolion i sicrhau bod AG sy'n parhau i ganolbwyntio ar y dysgwr sydd:

- Yn sicrhau bod datblygu sgiliau priodol yn treiddio drwy'r cwricwlwm
- Ag egwyddorion asesu ar gyfer dysgu a geirfa wedi'u hymgorffori
- Yn canolbwyntio ar barhad a dilyniant 3 -19
- Yn cynnig llai o gynnwys pwnc a chanolbwyntio mwy ar sgiliau
- Yn hyblyg
- Yn berthnasol i'r 21ain ganrif
- Yn cefnogi polisïau cenedlaethol gan gynnwys dwyieithrwydd, y Cwricwlwm Cymreig, Ewrop a'r Byd, cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd, addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a byd gwaith ac entrepreneuriaeth.

Mae'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG wedi cael ei ysgrifennu i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol i gael maes llafur cytûn lleol sy'n gofyn am:

- Hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau meithrin.
- Darpariaeth briodol ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys y rhai mewn lleoliadau derbyn a'r rhai hyd at 19 oed.
- Y dylid astudio Cristnogaeth ym mhob cyfnod allweddol a dylai bod y prif grefyddau eraill yn cael eu cynrychioli ym Mhrydain Fawr.
- Bod addysg grefyddol yn ddi-enwad, ond na waherddir addysgu am holwyddoreg neu fformiwlari penodol (h.y. gellir astudio tebygrwydd a gwahaniaethau mewn credoau, dysgeidiaeth ar arferion y traddodiadau crefyddol).

Ni fwriedir i'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG fod yn gynllun gwaith. Mae'n darparu fframwaith lle gall pob ysgol ddyfeisio'r rhaglen AG orau i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y maes llafur cytûn.

Dylai ysgolion gymryd sylw o'r pwyntiau canlynol:

- Mae'r maes llafur yn ei gwneud yn glir, yn unol â gofynion statudol, mai Cristnogaeth yw'r grefydd graidd bennaf ac y dylid ei haddysgu ym mhob cyfnod.
- Mae'n bwysig, fodd bynnag, bod yr holl ddisgyblion yn ymwybodol bod crefyddau byw ar wahân i Gristnogaeth yn bod mewn cymdeithasau yng Nghymru a'r byd. Mae'r Maes Llafur felly yn cyfeirio at y prif grefyddau, sef Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth.
- Dylid rhoi parch cyfartal i bob crefydd a astudir.

Cyfrifoldebau:

Cyfrifoldeb yr ALI, Llywodraethwyr yr Ysgol a Phenaethiaid yw sicrhau bod Addysg Grefyddol yn cael ei addysgu yn unol â'r maes llafur cytûn i bob disgybl sydd wedi cofrestru yn yr ysgol.

O dan Ddeddfau Addysg, mae'n rhaid i'r ALI roi trefniadau lleol ar gyfer ymdrin â chwynion. Bydd y CYSAG felly yn ystyried cwynion am ddarpariaeth neu ddiffyg darpariaeth Addysg Grefyddol. Bydd y trefniant hwn yn rhoi cyfle i rieni ac eraill sicrhau darpariaeth briodol o Addysg Grefyddol yn yr ysgolion. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y CYSAG i gynghori'r AALI ar faterion sy'n cynnwys "dulliau addysgu, dewis o ddeunyddiau addysgu a darparu hyfforddiant athrawon."

Rhoddir Addysg Grefyddol mewn ysgolion gwirfoddol a reolir yn unol â'r Maes Llafur Cytûn. Fodd bynnag, os bydd rhieni yn gofyn, dylid gwneud trefniadau ar gyfer darparu Addysg Grefyddol i blant yn unol ag unrhyw weithred ymddiriedolaeth, neu ddilyn yr arfer cyn i'r ysgol ddod yn un a reolir.

Rhoddir Addysg Grefyddol mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn unol â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol a'r canllawiau priodol fel y rhoddir gan yr awdurdod crefyddol yn ymwneud â'r ysgol. Fodd bynnag, os bydd rhieni yn gofyn, dylid gwneud trefniadau ar gyfer darparu Addysg Grefyddol i blant yn unol â'r Maes Llafur Cytûn lleol ar gyfer Addysg Grefyddol.

Hawliau Tynnu'n Ôl

O dan y Deddfau Addysg, mae gan rieni hawliau i dynnu'n ôl. Gall rhieni disgybl mewn unrhyw ysgol a gynhelir ofyn yn bersonol bod eu plentyn yn cael ei esgusodi'n llwyr neu'n rhannol rhag cael Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn unol â'r cwricwlwm sylfaenol. Mae'n bwysig bod ysgolion yn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o nodau a natur Addysg Grefyddol, a bod cyfle yn cael ei roi i drafod goblygiadau tynnu'n ôl yn llawn gyda'r rhieni, gan gynnwys y problemau sy'n codi gyda dulliau integredig a thematig. Caiff hawliau athrawon a phenaethiaid hefyd eu diogelu.

Amser Cwricwlwm

Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod addysg grefyddol yn rhan amlwg o'r cwricwlwm a bod parhad a chynnydd yn rhan o'r cynlluniau dysgu. Wrth gynllunio a threfnu'r cwricwlwm cyfan, mae'n rhaid rhoi **pwysau cyfartal** i addysg grefyddol â'r pynciau eraill nad ydynt yn bynciau craidd, er mwyn cyflawni gofynion statudol ym mhob cyfnod allweddol. Nid yw'r amser hyn yn cynnwys amser a roddir i Addoli ar y Cyd.

Yn CA4 mae'n rhaid i ysgolion sicrhau y dyrennir digon o amser i gyflawni rhaglenni astudiaeth o fewn Maes Llafur Cytûn Wreccsam (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG) mewn modd ystyrlon, heriol ac ymgysylltiol. Pan na ddarperir amser penodol yn y cwricwlwm ar gyfer AG, mae'n rhaid i'r ysgol allu darparu tystiolaeth o ble yn y rhaglen astudio ar gyfer CA4 o fewn y maes llafur cytûn y mae'n cael ei ymdrin mewn man arall yn y cwricwlwm.

Yn CA4 lle bo TGAU Astudiaethau Crefyddol (Cwrs Llawn neu Gwrs Byr) yn cael ei gynnig fel arholiad fel dewis, ac yn dilyn achrediad TGAU, mae'n rhaid i'r dyraniad amser ar gyfer y gwaith arholi fod yn briodol ac yn unol â'r GLH a argymhellir ar gyfer y cymhwyster gan y corff dyfarnu. Yn yr un modd, os yw ysgol yn cynnig Cwrs Byr neu Gwrs Llawn mewn Astudiaethau Crefyddol fel y rhaglen Addysg Grefyddol statudol, byddant wedi bodloni gofynion y Maes Llafur Cytûn, os yw'r dyraniad amser ar gyfer y gwaith arholi yn briodol ac yn unol â'r GLH a argymhellir ar gyfer y cymhwyster gan y corff dyfarnu, a bod y cwrs y maent yn ei ddilyn yn ystyried mwy nag un traddodiad crefyddol.

Yn CA5, dylai ysgolion sicrhau eu bod yn diwallu gofynion Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol Astudiaeth Ôl-16, y gellir ei drin mewn ystod o ddulliau. Er enghraifft, drwy Ddiwrnodau Cynhadledd Addysg Grefyddol.

Adnoddau

Dylai ystod eang o adnoddau fod ar gael, gan gynnwys gwerslyfrau a llyfrau cyfeirio, offer ac adnoddau clyweled, arteffactau crefyddol, mynediad at offer TG, digon o ddarpariaeth yn y llyfrgell a grantiau ar gyfer ymweliadau y tu allan i'r ysgol. Dylai ysgolion hefyd wneud defnydd o Lyfrgell Adnoddau AG Wreccsam sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan San Silyn ar gyfer AG yn Wreccsam. Dylid dyrannu ystafelloedd arbenigol mewn ysgolion uwchradd.

Staffio a hyfforddiant mewn swydd

Dylid dynodi Cydlynnydd ar gyfer AG neu Bennaeth Adran ym mhob ysgol. Dylid darparu adnoddau hygyrch a rhaglenni rheolaidd o hyfforddiant mewn swydd.

Rôl yr athro

Prif gyfrifoldeb yr athro yw helpu disgyblion i gyflawni prif amcanion y maes llafur. Mae'r nodau hyn yn addysgiadol, yn arwain y disgybl at ddealltwriaeth o grefydd a'i amrywiaeth o greddau, arferion a gwerthoedd gwaelodol a gwerthfawrogiad o'r rhan

y mae ffydd yn ei chwarae mewn bywyd. Rhaid i'r athro gymryd ymagwedd digyffesol i astudio unrhyw ffydd neu enwad.

Dylai sensitifrwydd tuag at gredoau, gwerthoedd ac arferion pobl eraill gael eu hystyried bob amser. Mae'r cwestiwn ynghylch p'un a yw'r athro yn gwneud ei gredoau/chredoau personol yn hysbys yn fater i'r athro unigol. Ni ddylai argyhoeddiad neu ddiffyg argyhoeddiad athro, a fynegir i'r dosbarth ai peidio, ragfarnu'r ymagwedd addysgol a gymerir tuag at y pwnc.

Nid yw Addysg Grefyddol yn egwyddori. Nod "addysg", ymhlith pethau eraill, yw trosglwyddo gwybodaeth, dyfnhau dealltwriaeth, annog barn wybodus a datblygu agweddau a gwerthoedd cadarnhaol. Nid oes lle mewn Addysg Grefyddol i orfodi plentyn i mewn i unrhyw ffydd neu enwad, neu i'r gwrthwyneb, i ddim un o gwbl.

Mae Addysg Grefyddol yn bwnc unigryw sy'n rhoi persbectif penodol ar lu o faterion, ac mae hyn yn deillio o gysyniadau ffydd ac ymrwymiad, sydd wrth wraidd y grefydd. Mae'r dimensiwn crefyddol yn rhoi mwy o ehangder a dyfnder i'r hyn sy'n bersonol, ysbrydol, cymdeithasol a moesol a dylai hyn gael ei gydnabod mewn unrhyw fath o gwrs cyfun neu integredig. Nid yw Addysg Grefyddol yr un fath ag Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh). Wrth ddilyn cwrs Addysg Grefyddol, bydd pob plentyn ac unigolyn ifanc yn ystyried a datblygu credoau personol, dysgu sgiliau cymdeithasol a llunio barn foesol, ond dyma beth ddylai ddigwydd yn holl feysydd y cwricwlwm.

Mae Addysg Grefyddol yn yr unfed ganrif ar hugain yn annog disgyblion i archwilio ystod o gwestiynau athronyddol, diwinyddol, moesegol ac ysbrydol mewn ffordd fyfyrion, ddadansoddol a chytbwys sy'n ysgogi cwestiynu a dadl. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ddeall ymgais dynoliaeth am ystyr, agweddau cadarnhaol ar aml-ffydd / dealltwriaeth amlddiwylliannol a dealltwriaeth y disgyblion eu hunain a'u hymatebion i fywyd a chrefydd.

Crefyddau i'w hastudio

| Cyfnod / Cyfnod Allweddol | Gorfodol | Dewis | Sylwadau |
|--|--|---|---|
| Sylfaen | Cristnogaeth (fel y craidd pennaf) Ac un grefydd arall | Naill ai: Iddewiaeth neu Hindŵaeth | Gellir hefyd cynnwys elfennau ychwanegol o grefyddau eraill o bryd i'w gilydd, os yw'n briodol i'r pynciau sy'n cael eu dilyn. |
| 2 | Cristnogaeth (fel y craidd pennaf) a dwy grefydd arall Dylid ystyried crefyddau a astudir yn y Cyfnod Sylfaen wrth gynllunio ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 | Iddewiaeth Hindŵaeth Islam | Gellir hefyd cynnwys elfennau ychwanegol o grefyddau eraill o bryd i'w gilydd, os yw'n briodol i'r pynciau sy'n cael eu dilyn. |
| 3 | Cristnogaeth (fel y craidd pennaf) a thair crefydd arall Dylid ystyried crefyddau a astudir yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo wrth gynllunio ar gyfer Cyfnod Allweddol 3. | Iddewiaeth Hindŵaeth Islam Bwdhaeth Sikhiaeth | Gellir hefyd cynnwys elfennau ychwanegol o grefyddau eraill o bryd i'w gilydd, os yw'n briodol i'r pynciau sy'n cael eu dilyn. |
| 4 | Cristnogaeth (fel y craidd pennaf) ac o leiaf tair crefydd arall | Iddewiaeth Hindŵaeth Islam Bwdhaeth Sikhiaeth | Pan fo ysgol yn dilyn Cwrs Byr TGAU achrededig mewn Astudiaethau Crefyddol fel y rhaglen Addysg Grefyddol statudol, ystyrir ei bod yn bodloni gofynion y Maes Llafur Cytûn, os yw'r cwrs maent yn ei ddilyn yn ystyried mwy nag un traddodiad crefyddol. |
| 5 | Cristnogaeth (fel y craidd pennaf) a chrefyddau eraill fel y bo'n briodol | Agweddau priodol o'r crefyddau eraill | Pan fo ysgol yn dilyn yr arwyddbyst ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru fel y rhaglen Addysg Grefyddol statudol, ystyrir ei bod wedi bodloni gofynion y Maes Llafur Cytûn, os yw'r cynllunio yn cynnwys Cristnogaeth a chrefyddau eraill fel y bo'n briodol. |